# Adroddiad Blynyddol ar Iechyd Cyhoeddus Cymru gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru 2014-2015

Rheolwr Perthynas: Darren Hatton
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Ffôn: 0300 062 8402

## Diben

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r brif arolygiaeth annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru. Ei rôl yw darparu sicrwydd annibynnol a gwrthrychol ynglŷn ag ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau gofal iechyd, gan wneud argymhellion i sefydliadau gofal iechyd er mwyn hyrwyddo gwelliannau.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn wedi cael ei gynhyrchu gan AGIC fel crynodeb o weithgarwch AGIC rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2015 ynglŷn ag Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae'r canlyniadau rydym yn ceisio dylanwadu arnynt o ganlyniad i'n gweithgareddau yn y bwrdd iechyd hwn/ymddiriedolaeth hon, a byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau eraill, fel a ganlyn:

- Mae profiad dinasyddion o ofal iechyd yn gwella
- Mae dinasyddion yn gallu cael gwybodaeth glir ac amserol am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Mae dinasyddion yn hyderus bod gwaith arolygu a rheoleiddio'r sector gofal iechyd yng Nghymru yn ddigonol, yn gymesur, yn broffesiynol, yn gydgysylltiedig, ac yn ychwanegu gwerth

## Trosolwg

Yn ystod 2014-2015, ni chynhaliodd AGIC unrhyw arolygiadau o Iechyd Cyhoeddus Cymru.

## Themâu Allweddol

Cynhaliodd AGIC 46 o arolygiadau urddas a gofal hanfodol ar draws y saith bwrdd iechyd yn ystod 2014-2015. Mewn nifer fach o arolygiadau, gwelodd AGIC broblemau ynglŷn â rheoli heintiau ar wardiau gan staff meddygol a staff nad ydynt yn staff meddygol. Mae'r enghreifftiau canlynol yn berthnasol i Iechyd Cyhoeddus Cymru ond nad ydynt o dan ei ddylanwad. Roedd enghreifftiau'n cynnwys:

- Roedd cleifion a oedd yn derbyn nyrsio rhwystrol yn derbyn gofal gan staff nad ydynt yn staff meddygol, heb y menig a ffedog ddiogelu briodol, gan gynyddu'r risg o broblemau ynglŷn â rheoli heintiau
- Nid oedd staff meddygol yn gwisgo menig nac yn golchi dwylo yn ôl y gofyn

Cynhaliodd AGIC 77 o arolygiadau deintyddol ar draws y saith bwrdd iechyd yn ystod 2014-2015. Mewn rhai byrddau iechyd, gwelsom feysydd i'w gwella ynglŷn â threfniadau rheoli heintiau, a phroblemau eraill sy'n berthnasol i Iechyd Cyhoeddus Cymru ond nad ydynt o dan ei ddylanwad. Roedd enghreifftiau'n cynnwys:

- Yr angen i sicrhau bod y cleifion yn derbyn rhagor o wybodaeth hyrwyddo iechyd, gan gynnwys rhoi'r gorau i ysmygu ac ymwybyddiaeth o ganser y geg/atal canser y geg (Aneurin Bevan)
- Dadheintio a storio cyfarpar – yr angen i sicrhau effeithiolrwydd trefniadau dadheintio a sicrhau bod offer yn cael ei storio'n briodol, er mwyn sicrhau ei fod yn aros yn ddi-haint (Aneurin Bevan a Hywel Dda)
- Rheoli heintiau – yr angen i sicrhau effeithiolrwydd trefniadau rheoli heintiau, gan gynnwys hyfforddi staff yn y maes hwn (Aneurin Bevan a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys)
- Tynnwyd sylw at rai materion iechyd a diogelwch megis: cael gwared ar gastiau deintyddol mewn modd amhriodol, trin mercwri, cael gwared ar offer deintyddol un tro, niferoedd annigonol o offer llaw (Hywel Dda)

## Llywodraethu ac Atebolrwydd

Roedd yr hunanasesiad a gynhaliwyd a chyflwynwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2013-2014 yn nodi bod hunanwerthusiad y sefydliad o'i drefniadau llywodraethu wedi bod yn effeithiol. Roedd yr hunanasesiad y gwnaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru ei gynnal a'i gyflwyno i AGIC ar gyfer 2013-2014 yn nodi'r canlynol:

O dan bob un o'r tair thema: *Pennu'r Cyfeiriad, Galluogi Cyflenwi a Chyflenwi Canlyniadau, a Chyflawni Rhagoriaeth*, roedd y sefydliad yn teimlo ei fod wedi dangos aeddfedrwydd ar Lefel 3 – mae'r ymddiriedolaeth yn datblygu cynlluniau a phrosesau, ac maent yn gallu dangos cynnydd mewn rhai o'n meysydd allweddol ni ar gyfer gwella.

O dan y thema *Pennu'r Cyfeiriad*, mae'r ymddiriedolaeth wedi sefydlu bwrdd a threfniadau llywodraethu. Roedd yr ymddiriedolaeth wedi adnewyddu ei strategaethau er mwyn rhoi diben clir. Nododd yr ymddiriedolaeth yr angen i gryfhau dysgu gan ddefnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid er mwyn llywio gwella gwasanaethau.

O dan y thema *Galluogi Cyflenwi*, roedd yr ymddiriedolaeth wedi parhau i ddarparu gwasanaethau diogel a hygyrch o safon uchel, o fewn y gyllideb ar gyfer 2013-2014. Roedd yr ymddiriedolaeth yn anelu at wella cynhwysiad a ffyrdd o weithio, ar gyfer gweithlu sy'n rhychwantu nifer o leoliadau. Mae hefyd wedi nodi bod lefel isel o gydymffurfio â hyfforddiant statudol a hyfforddiant gorfodol yn peri risg i'r sefydliad.

O dan y thema *Cyflenwi Canlyniadau* a *Chyflawni Rhagoriaeth*, gwnaeth yr ymddiriedolaeth ddatblygu ac adolygu trefniadau perfformiad a chynllunio yn ystod y flwyddyn, ac fel gyda'r thema *Pennu'r Cyfeiriad*, roedd angen i'r ymddiriedolaeth wella dysgu trwy ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth.

Yn ogystal, roedd casgliadau yn Adroddiad Archwilio Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru yn nodi bod yr ymddiriedolaeth wedi gwella ei ffocws ar ei blaenoriaethau strategol a gweithredol, a'r risgiau cysylltiedig, yn ogystal â'i threfniadau llywodraethu – er bod lle i gyflymu gwelliannau pellach.

## Ymgysylltu

Yn ystod 2014-2015, cwrddodd Kate Chamberlain, prif weithredwr AGIC, ynghyd â'r rheolwr perthynas, â'r prif weithredwr a'r cadeirydd ym mis Ionawr 2015. Roedd yr ymweliad hwn yn rhan o raglen o gyfarfodydd cysylltu, lle byddai AGIC yn lleisio unrhyw broblemau wrth fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau, yn trafod rhaglenni gwaith yn y dyfodol, ac yn casglu adborth ar unrhyw faterion ynglŷn â'r ffordd mae AGIC yn gweithredu.

Mae AGIC yn parhau i weithio'n agos gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru wrth ddatblygu a chynnal arolygiadau deintyddol. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn aelod gweithgar o Grŵp Rhanddeiliaid Deintyddol AGIC, ac mae'n darparu cyngor yn rheolaidd ar ganlyniadau arolygiadau pan fo hynny'n briodol. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn rheoli proses hunanasesu sicrhau ansawdd ar gyfer pob ymarferydd yng Nghymru sy'n darparu deintyddiaeth breifat yn unig, ac yn adrodd ar y broses hon i AGIC. Mae'r broses yn cael ei rheoli trwy gytundeb lefel gwasanaeth. Roedd y broses hunanasesu sicrhau ansawdd wedi'i chwblhau'n llwyddiannus am y tro cyntaf yn 2014, ac mae ail hunanasesiad ar y gweill ar gyfer 2015.

Mae AGIC yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid eraill mewn perthynas ag Iechyd Cyhoeddus Cymru trwy broses yr Uwchgynhadledd Gofal Iechyd a Fframwaith Uwchgyfeirio ac Ymyrryd y GIG.

## Gwaith Arolygu

**Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol**

| **Lleoliad** | **Dyddiad** |
|---|---|
| Aman | 13/08/2014 |
| Ysbyty Brenhinol Morgannwg | 10/09/2014 |
| Ysbyty Sirol Trefaldwyn, y Drenewydd | 04/12/2014 |
| Ysbyty Brenhinol Morgannwg | 14/01/2015 |

Dyddiad cynhyrchu: Gorffennaf 2015